

“Cyffredinoliaeth ar drai? Pwysigrwydd hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar hyn o bryd”

JAMIE BURTON CB

DARLITH FLYNYDDOL

Arsyllfa ar Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol

“Keir, Ker Starmer why do you keep inviting millions of refugees into the country when there are 1.3 million people waiting for housing...”

Pat McGinnis, National Housing Party UK, y tu allan i stepen drws y Prif Weinidog ym mis
Tachwedd 2024

Diolch i'r Arsyllfa ac i Simon Hoffman yn arbennig am y cyfle i gyflwyno'r ddarlith flynyddol ar hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n anrhydedd o'r mwyaf ac yn fraint cael fy ngwahodd.

Cyflwyniad

Ar ôl ennill gyda buddugoliaeth enfawr, daeth Keir Starmer, cyfreithiwr hawliau dynol enwog wrth ei alwedigaeth, yn Brif Weinidog. Ers hynny mae ei Dwrnai Cyffredinol, ei gyn-gydweithiwr a'r cyfreithiwr hawliau dynol Richard Hermer CB wedi datgan bod 'Hawliau Dynol yn ôl'!

Fodd bynnag, fel yr wyf yn siŵr y gwyddoch i gyd, nid oedd hawliau dynol yna'n llawn erioed yn y lle cyntaf; nid yw Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (“ECD”) wedi'u hymgorffori yng nghyfraith y DU erioed er gwaethaf cadarnhau Cyfamod y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Mae hyn yn gyson â'r “ddeuoliaeth ffug” rhwng Hawliau Sifil a Gwleidyddol ac ECD ; deuoliaeth sy'n seiliedig yn ôl pob golwg o leiaf ar lu o resymau a ystyrir yn hynafol i raddau helaeth

bellach: er enghraifft, am nad yw hawliau ECD yn hawliau anhraddodadwy, am eu bod yn anghyfreithlon yn ddemocrataidd neu nad ydyn nhw'n hawliau (dynol) o gwbl!

Bu gwir gynnydd yn ddiweddar o ran chwalu'r ddeuoliaeth hon a deall pwysigrwydd trin pob hawl yn gyfartal; maen nhw'n "ddiymwad" am resymau cadarn: "rhyddid a bara" fel y dywedodd Albie Sachs, y Barnwr Clodwiw o Dde Affrica.

Mae llywodraethau Cymru a'r Alban wedi cymryd camau breision yn hyn o beth, ac wedi derbyn canmoliaeth haeddiannol amdanynt gan lawer, yn rhyngwladol ac yn nes at adref.

Dim ond ychydig flynyddoedd yn ôl, roeddwn i'n falch iawn o annerch y gynulleidfa yng nghynhadledd flynyddol Tai Pawb; yn hytrach nag ailadrodd yr un hen ddadleuon, gallwn helpu i symud y ddadl yn ei blaen a thorchi fy llewys yn chwyn gweithredu'r hawl i dai fel hawl orfodadwy yng nghyfraith Cymru, o ystyried sefyllfa ddatblygedig cynnydd deddfwriaethol ar y pryd.

Mae'r ymdrechion hynny ac ymdrechion ein cydweithwyr yn yr Alban wedi'u hoedi ar hyn o bryd: nid wyf wedi cael gwybod beth yw'r rhesymau dros hyn, efallai bod rhai ohonoch chi'n gwybod, ond mae'n debyg bod gan y newid yn llywodraeth San Steffan rywbeth i'w wneud â'r mater. A chafwyd rhai synau calonogol o'r fan honno hefyd: argymhellodd Comisiwn Cyfansoddiadol 2022 Gordon Brown ar Ddyfodol y DU y dylid ymwreiddio hawliau cymdeithasol a dywedodd melin drafod ddylanwadol y Fabians yr un peth fwy na heb yn ei maniffesto yn 2024.

Ond mae grymoedd cryf, gwrthbwysol hefyd. Mae'r dyfyniad uchod yn awgrym o'r hyn y mae'r grymoedd hynny'n ei gynnwys. Mae cynnydd poblyddiaeth y dde eithaf yn bygwth nid yn unig Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, ond Hawliau Dynol fel yr ydym yn eu dirnad a'u deall: hawliau cyffredinol a diymwad i bob un ohonom eu mwynhau yn sgil bod yn ddynol.

Credaf ein bod ni ar bwynt ffurfdro arwyddocaol ar gyfer hawliau ECD a hawliau dynol yn fwy cyffredinol.

Mae'n "amser tyngedfennol" – fel y mae un ysgolhaig hawliau dynol amlwg wedi ei ddisgrifio.

Fy ateb i'r cwestiwn *tyngedfennol* (fel y gwelaf i ef), yw y dylem ymgorffori hawliau ECD a gwneud hynny nawr; er gyda pharodrwydd i gydnabod bod llawer o waith i'w wneud os yw hawliau dynol a hawliau ECD am fod yn wirioneddol effeithiol ym mywydau beunyddiol pobl.

Cyn egluro strwythur fy sgwrs, dylwn ddiffinio beth rwy'n ei olygu wrth ddweud, ymgorffori hawliau ECD. Yn y bôn, rwy'n golygu rhoi'r un amddiffyniad cyfartal iddynt ag i hawliau Sifil a Gwleidyddol yn system gyfreithiol y DU, p'un ai trwy ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998 neu fel arall, ac yn gyson â sefydlu Siarter Hawliau Dynol Ewrop yn neddfau datganoli. Mae llu o gwestiynau eilaidd a fyddai'n codi yn sgil hynny, gan gynnwys cwestiynau hollbwysig am y fframwaith sefydliadol y tu ôl i'w weithredu ac egwyddorion dyfarnu yn y llysoedd. Bydd angen mynd i'r afael â'r cwestiynau hynny, ond nid heddiw.

Strwythur

Yn gyntaf, byddaf yn dwyn ynghyd 7 nodwedd neu duedd wedi'u sefydlu'n empirig sy'n nodweddu democratiaethau cyfalafol modern, gan gynnwys y DU, a fydd o'u gadael yn ddi-ball yn arwain yn ddiwrthdro at ganlyniadau niweidiol (pellach eto) i'r rhan fwyaf ohonom, yn enwedig y lleiaf cefnog, ac felly mae'n rhaid eu hwynebu. Nid wyf wedi medru gwrthsefyll y demtasiwn i roi enw braidd yn felodramatig iddynt... 'y 7 pechod marwol'!

Yna byddaf yn mynd i'r afael yn gryno â'r cyd-destun ideolegol y tu ôl i'r 7 pechod marwol cyn egluro pam, yn fy marn i, y byddai ymgorffori hawliau ECD yn ffordd angenrheidiol, er annigonol, o fynd i'r afael â nhw.

Wrth wneud hynny, byddaf yn esbonio'r tri gwrthwynebiad gwleidyddol yn fras i hawliau ECD sydd wedi denu'r sylw mwyaf diweddar: y feirniadaeth **“gormod”**, **“dim digon”** ac **“nid rheina!”**.

Nid yw'r gwrthwynebiadau hyn yn newid fy marn i, hyd yn oed os ydyn nhw'n cynnig rheswm i fyfyrto; i'r gwrthwyneb, mae eu hamlygrwydd gwleidyddol yn tanlinellu'r brys yn y foment hon yn awr i hyrwyddo hawliau ECD.

Y 7 pechod marwol

1. Mae anghydraddoldeb economaidd yn rhan annatod o'r system

Mae'n ddeng mlynedd bellach ers i Thomas Picketty gyhoeddi ei waith arloesol *Capital in the Twenty-First Century 2014*.

Gan ganolbwyntio ar UDA ac Ewrop, cadarnhaodd yr economegydd Ffrengig, fel mater o hanes economaidd, fod cyfradd yr enillion ar gyfer cyfalaf a berchnogir (**r**) wedi mynd y tu hwnt i gyfradd gyffredinol twf economaidd (**g**); mewn geiriau eraill, bydd teuluoedd ac unigolion sy'n rheoli cyfoeth yn ei gronni ar gyfradd gynt nag y gall yr economi ei gynhyrchu ac felly byddant yn rheoli cyfran gynyddol fwy o'r deisen economaidd.

Bydd y cyfoethog yn dod yn gyfrannol gyfoethocach, a'r tlawd yn gyfrannol dlotach.

Nid dyma'r unig esboniad am anghydraddoldeb o bell ffordd; gall siociau economaidd chwarae rhan sylweddol, i'r naill gyfeiriad a'r llall. Er enghraifft, cynhyrchodd y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd amodau a wnaeth leihau anghydraddoldeb cyffredinol; mae'r Argyfwng Ariannol Byd-eang yn 2008, ac yn enwedig y pandemig a'r Argyfyngau Cost Byw, wedi cael (ac yn cael) effaith i'r gwrthwyneb.

Yn y DU yn 2021, roedd 50% isaf y boblogaeth yn berchen ar lai na 5% o'r cyfoeth, a'r 10% uchaf yn berchen ar gyfran syfrdanol o **57%** (i fyny o 52.5% yn 1995). Roedd 23% yn nwylo'r 1% uchaf (World Inequality Lab, 2022).

Ers hynny, mae'r Argyfwng Costau Byw parhaus wedi ein gwneud yn fwy anghyfartal hyd yn oed.

2. Mae dosbarthiad sylweddol anghyfartal cyfoeth yn tanseilio twf economaidd

Yn 2017 sefydlodd astudiaeth y Gronfa Ariannol Ryngwladol, yn groes i ddoethineb confensiynol, fod anghydraddoldeb incwm yn ddrwg i dwf economaidd.

Er bod effaith anghydraddoldeb incwm ar ddatblygiad economaidd yn gadarnhaol ar gyfer gwerthoedd cyfernod Gini net o dan 27 y cant, daw'r effaith yn negyddol ar gyfer gwerthoedd sy'n uwch na 27% (lle mae 0 yn gydraddoldeb perffaith a 100 yn anghydraddoldeb perffaith).

Ar ben hynny, wrth i wledydd ddod yn fwy anghyfartal, mae'r effaith negyddol ar ddatblygiad economaidd yn dod yn fwy.

Yn benodol, os bydd cyfran incwm yr 20% uchaf (y cyfoethog) yn cynyddu, yna mae twf cynnyrch domestig gros yn dirywio dros y tymor canolig, gan awgrymu nad yw'r manteision yn cyrraedd pawb.

Mewn cyferbyniad, mae cynnydd yng nghyfran incwm yr 20% isaf (y tlawd) yn gysylltiedig â thwf cynnyrch domestig gros uwch.

Felly, y tlawd a'r dosbarthiadau canol sydd bwysicaf ar gyfer twf.

Mae gan y Deyrnas Unedig rai o'r lefelau uchaf o anghydraddoldeb yn Ewrop; 35 oedd ei Gyfernod Gini yn 2022/3 (39 os ystyriwch gostau tai). Ymhell uwchlaw'r trothwy ar gyfer twf negyddol. Ac yn wir, ar ôl y pandemig mae ei thwf economaidd wedi bod yn arafach na'i chyfoeswyr mwy cyfartal yn yr UE.

3. Mae anghydraddoldeb yn ddrwg i bawb

Mae anghydraddoldeb incwm yn ddrwg i chi, hyd yn oed os ydych chi'n byw mewn gwlad gyfoethog: nododd llyfr Richard Wilkinson a Kate Pickett, *The Spirit Level*, yr effeithiau

niweidiol y mae anghydraddoldeb yn eu cael ar gymdeithasau: erydu ymddiriedaeth, cynyddu pryder a salwch, ac annog treuliant gormodol.^[5] Mae'n honni, ar gyfer pob un o'r un ar ddeg o wahanol broblemau iechyd a chymdeithasol: [iechyd corfforol](#), [iechyd meddwl](#), [camddefnyddio cyffuriau](#), [addysg](#), [carcharu](#), [gordewdra](#), [symudedd cymdeithasol](#), [ymddiriedaeth](#) a bywyd cymunedol, [trais](#), [beichiogrwydd yn yr arddegau](#), a lles plant, bod y canlyniadau'n sylweddol waeth mewn gwledydd cyfoethog mwy anghyfartal.

Yn wir, yng nghyd-destun gwledydd incwm uchel, nid oes gan lefel gyffredinol cyfoeth gwlad unrhyw gydberthynas ag iechyd a lles ei phoblogaeth. Yn hytrach, mae iechyd a lles yn cydberthyn â lefel cydraddoldeb economaidd yn y wlad (Stiglitz 2009).

Ac nid yw'r effeithiau'n cael eu profi gan y rhai sydd waethaf eu byd yn unig, ond gan fwyafrif helaeth y boblogaeth (Stiglitz 2012).

Ond nid pawb, wrth gwrs. O ran y DU, dyma ddywedodd Michael Marmot: Yn y degawd 2010–20, fel yn y degawdau â'i ragflaenodd, mae'r cyfoethog wedi dod yn gyfoethocach gan fod twf cyfalaf wedi codi'n llawer cyflymach na thwf cyflog ansicr. Yn syml, mae'r cyfoethog wedi dod yn gyfoethocach - ac felly'n iachach. [Marmot review ten years on - 2020](#)

Mae hyn yn adlewyrchu'r profiad yn y pandemig pan waethygodd anghydraddoldebau iechyd i raddau helaeth oherwydd gwahaniaethau a oedd eisoes yn bodoli mewn statws economaidd-gymdeithasol.

4. Mae anghydraddoldeb yn arbennig o ddrwg i'r rhai llai cefnog (tlawd)

Mae anghydraddoldeb mwy yn gysylltiedig â llai o wariant wedi'i ailddosbarthu gan y llywodraeth, fel y'i mesurir gan gyfran o gynnyrch domestig gros (de Mello a Tiongson 2003).

Yn yr un modd, mae tystiolaeth bod gwariant cymdeithasol yn disgyn pan fo'r bwlch rhwng yr aelwydydd yng nghanol y dosbarthiad incwm, a'r 10 y cant uchaf yn ehangu (Schwabish, Smeeding, ac Osberg 2004).

Pam? Mae'r cyfoethog yn debygol o wrthsefyll ffurfiau blaengar o drethu, sy'n cyfyngu ar allu'r llywodraeth i roi adnoddau ar waith i fynd i'r afael â thlodi (Sokoloff a Zolt 2006).

Yn y DU, dyma ddywedodd y [Resolution Foundation](#) ym mis Gorffennaf 2024:

“In 2024, [British household wealth] was estimated to be worth more than six times GDP, more than 50 per cent higher than the last time Labour came into power (410 per cent in 1997). The key driver of this huge rise in wealth is unearned passive gains. These gains have stretched the gap between the wealthy ‘haves’ and the less fortunate ‘have nots’: today, families in the top tenth of the wealth distribution have £1.3 million more in wealth per adult on average than those around the middle (fifth decile). Yet, despite huge increases in wealth, revenues raised from wealth-related taxes have barely moved, at around 3 per cent of GDP.

5. Mae'r tlodion yn fwy tebygol o aros yn dlawd mewn cymdeithasau anghyfartal

[Mae cymdeithasau anghyfartal yn profi llai o symudedd cymdeithasol](#) – mae'r tlodion yn tueddu i aros yn dlawd, hyd yn oed pan fydd y bobl yn yr 1% uchaf yn newid yn aml.

Gyda gwahaniaethau rhanbarthol a gwahaniaethau eraill sylweddol, mae symudedd cymdeithasol yn parhau i ostwng ar draws y DU. [Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid](#) yn dweud bod cefndir cymdeithasol yn fwy cysylltiedig â chanlyniadau yn y DU nag mewn llawer o wledydd datblygedig eraill ac mae Symudedd Cymdeithasol yn y DU yn waeth nag y mae wedi bod ers 50 mlynedd.

6. Mae anghydraddoldeb yn tanseilio democratiaeth (pa un ddaeth gyntaf)

Mae anghydraddoldeb wrth reoli adnoddau economaidd yn ennyn anghydraddoldeb wrth ddsbarthu pŵer mewn cymdeithas; nododd y gwyddonydd gwleidyddol Susan George y ffenomen systematig mewn gwladwriaethau hynod anghyfartal o “gipio gwleidyddol” gan elitau economaidd. Nid oes gan y rhai sy'n waeth eu byd yr un mynediad at fforymau llunio polisi (UNDP 2013).

Yn hollbwysig, mae hyn yn tanseilio theorem y pleidleisiwr canolrifol (lle bydd yr etholwyr yn pleidleisio dros fesurau (trethi uwch) sy'n “cywiro” anghydraddoldeb pan fydd màs critigol o'r boblogaeth bleidleisio yn disgyn o dan y canolrif) (Stiglitz 2012). Yn wir, yn baradocsaidd, mewn cymdeithasau anghyfartal, mae mwy o bobl yn ymddieithrio oddi wrth sefydliadau gwleidyddol ac [nid ydyn nhw'n pleidleisio](#): yr hyn a elwir yn **Ddamcaniaeth Schattschneider**.

Mewn adroddiad pwysig a gomisiynwyd ar gyfer y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn 2022, dangosodd Ansell a Gingrish bod:

- Cyfranogiad pleidleiswyr ym mhroses etholiadol y DU wedi dod yn llawer mwy anghyfartal ers y 1960au. Mae incwm, addysg a pherchenogaeth cartrefi wedi dod yn rhagfynegyddion cryfach o duedd i bleidleisio.
- Mae dinasyddion Prydain yn teimlo llai o gynrychiolaeth gan wleidyddion a llunwyr polisiâu nag yr oeddynt sawl degawd yn ôl, ac mae bylchau mawr yn parhau ar draws grwpiau addysgol ac incwm o ran cyfreithlondeb canfyddedig y llywodraeth.

Gan eu harwain i'r casgliad bod cynnydd mewn anghydraddoldeb economaidd yn y DU dros y pedwar degawd diwethaf yn codi cwestiynau difrifol am gyflwr cydraddoldeb gwleidyddol ym Mhrydain.

7. Mae cydraddoldeb yn ffactor sylweddol yn natblygiad poblyddiaeth wleidyddol

Efallai nad yw'n syndod bod anghydraddoldeb yn tueddu i gydbertyn â chyfraddau uwch o raniadau gwleidyddol. Mae canfyddiadau Gu a Wang dros gyfnod o 30 mlynedd yn

dangos bod cysylltiad traws-gwlad cadarnhaol ac ystadegol arwyddocaol rhwng lefelau anghydraddoldeb incwm a pholareiddio gwleidyddol.

Mae [Banc y Byd](#) yn tynnu sylw at anghydraddoldeb fel prif ffactor yn y twf diweddar mewn cefnogaeth i bleidiau gwleidyddol poblyddol, sy'n dadlau bod atebion syml i broblemau economaidd.

Mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol yn cadarnhau bod poblyddwyr sydd mewn grym yn tueddu i gael rhywfaint o effaith ar anghydraddoldeb – mae poblyddwyr asgell chwith yn ei ostwng, mae poblyddwyr asgell dde yn cynyddu anghydraddoldeb, ond ar draul llai o dwf economaidd yn gyffredinol.

[Yn ôl astudiaeth yn 2021 yn benodol](#) (Stoezer) roedd pob cynnydd un-pwynt ym mesur anghydraddoldeb incwm Gini yn cynyddu cefnogaeth i bleidiau asgell dde eithaf un pwynt canran.

Nid yw poblyddiaeth wedi bod yn hawdd ei diffinio ond mae'r diffiniad a ddefnyddir fwyaf yn disgrifio poblyddiaeth fel ideoleg “denau” sy'n 'ystyried bod cymdeithas wedi'i rhannu'n ddau grŵp homogenaidd a gelyniaethus yn y pen draw, “y bobl bur” yn erbyn “yr elit llygredig”, ac ... mae'n dadlau y dylai gwleidyddiaeth fod yn fynegiant *ofolonté générale* (ewylllys cyffredinol) y bobl'.

Ac mewn gwledydd datblygedig (Ewrop yn bennaf), rydym yn tueddu i weld math penodol o boblyddiaeth dde eithaf a ddiffinnir fel '**cyfyngol**' o ran ei chymeriad hanfodol: mae'n “gyfyngol” yn yr ystyr bod grwpiau penodol yn cael eu **heithrio'n** benodol rhag mynediad at adnoddau'r wladwriaeth, er enghraifft swyddi neu ddarpariaethau lles, yr ystyriant fwyfwy dan fygythiad yn sgil grymoedd allanol (yn enwedig mewnfudwyr).

Felly, mae mewnfudo yn cael ei bortreadu fel gêm lle mae un ar ei ennill ac un ar ei golled: naill ai mae'r' sawl sydd y tu allan' yn cael rhywbeth ar draul y 'brodorion', neu mae'r brodorion yn 'cymryd rheolaeth yn ôl'.

Dangosodd ymchwil Van Oosten, gwyddonydd cymdeithasol ym Mhrifysgol Rhydychen, pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn dirywio, bod pobl yn beio mewnfudwyr — hyd yn oed os nad oes ganddyn nhw ddim byd i'w wneud â'r dirywiad. Yn ôl yr astudiaeth, mae dirywiad mewn gwasanaethau cyhoeddus yn cymell dinasyddion i gredu nad ydyn nhw'n derbyn 'eu cyfran deg o adnoddau cyhoeddus' ac nad yw 'elitau gwleidyddol yn poeni am eu cymunedau' sy'n gwneud cymunedau yr effeithir arnyn yn fwy agored i negeseuon pleidiau eithafol y dde.”

Yn y DU, roedd naratif gwrth-fewnfudo llwyddiannus UKIP yn gysylltiedig â'r cyfnod o gyni yn dilyn argyfwng ariannol 2008 i'r graddau fel y gwelwyd yr ardaloedd a gafodd eu taro galetaf gan doriadau gwasanaethau cyhoeddus yn profi [cynnydd sylweddol mewn cefnogaeth i UKIP](#), wedi'i sbarduno gan ofnau am brinder swyddi, dirywiad yn ansawdd gwasanaethau cyhoeddus, a sefydlogrwydd economaidd. Nid oedd twf y gefnogaeth i UKIP yn [gysylltiedig yn uniongyrchol](#) â mudo uchel ar lefel ranbarthol, ond cafodd [ei ddylanwadu'n sylweddol](#) gan fesurau cyni a naratifau cyfryngau (cymdeithasol).

Mae [Nigel Farage](#), arweinydd plaid boblyddol, wrth-fewnfudo Reform, wedi gwneud honiadau ffug yn rheolaidd bod ffoaduriaid a mudwyr yn faich ar gyllidebau cyhoeddus. Mae wedi [cwyno](#), er enghraifft, am Brydain yn gorfod adeiladu tŷ bob dwy funud i ddarparu llety ar gyfer ymfudwyr cyfreithlon ac wedi rhybuddio am “y rhai sy'n cyrraedd yng nghefn loriâu” er mwyn ceisio cael budd-daliadau.

Ac mae gennym y dyfyniad uchod gan Pat McGinnis, National Housing Party UK

I gloi ar y 7 pechod marwol...

Yn y bôn, nid yw'r 7 tuedd hon yn ddadleuol: maen nhw'n gyson â'r data empirig. Rwy'n dychmygu hefyd y bydden nhw'n cyd-fynd â phrofiad byw llawer o bobl, gan gynnwys llawer ohonoch chi yma heddiw. Ond ni ddylid ystyried y canfyddiadau hyn fel rhagfarnau gwleidyddol mwyach ond nodweddion cynhenid y strwythurau cymdeithasol yr ydym yn cael ein llywodraethu ganddyn nhw.

Nid yw'n syndod felly bod y Deyrnas Unedig mewn sefyllfa wael: anghydraddoldeb uchel gyda chrynodeiadau enfawr o gyfoeth ar y brig, twf isel a chynhyrchiant isel; iechyd gwael - epidemig iechyd meddwl; tlodi sydd wedi ymwreiddio; symudedd cymdeithasol isel; safonau byw gwael gyda lefelau uchel o fanciau bwyd ac ansicrwydd ynni; tai o safon isel; ac mae cyfanswm o fwy na 16 miliwn o bobl yn cael eu diffinio fel rhai sy'n byw mewn tlodi, neu **24%** o boblogaeth y DU – yr uchaf ers i gofnodion o'r fath ddechrau yn 2000.

Yn y cyfamser mae Reform yn gwneud yn dda mewn arolygon barn ac mae'r Arlywydd Trump yn fwy poblogaidd na'n Prif Weinidog ni, a etholwyd yn ddiweddar gyda 411 o'r 650 sedd.

Y cyd-destun ideolegol

Dyna oedd y dystiolaeth empirig, ond mae esboniad ideolegol hefyd

Ers y 1980au, mae meddwl neoryddfrydol wedi dominyddu gwaith llunio polisiau economaidd ledled y byd. Dros yr un cyfnod, mae anghydraddoldeb incwm a chyfoeth wedi tyfu mewn llawer o wledydd (Piketty 2014; UNDP 2013) gan gynnwys y Deyrnas Unedig.

Yn ôl ffordd neoryddfrydol o feddwl, marchnadoedd ddylai fod y sefydliadau mwyaf blaenllaw ar gyfer cydlynu gweithgaredd economaidd. Dylid osgoi ymyriadau gan y llywodraeth, gan eu bod yn creu afluniadau sy'n arwain at ganlyniadau israddol. Mae'r rhesymeg hon yn berthnasol nid yn unig i fesurau aiddosbarthol fel nawdd cymdeithasol ond fe'i defnyddiwyd i gyfiawnhau'r rhan fwyaf o bolisiau economaidd neoryddfrydol – dadreoleiddio, preifateiddio, lleihau maint llywodraeth, a dileu rhwystrau i fasnach a llifoedd ariannol trawsffiniol.

Mae'r trawsnewid hwn yn rôl y wladwriaeth ryddfrydol, o un gyda'r nod o ddarparu 'lles' a 'datblygiad' wedi'u sbarduno gan ymrwymiad eang (ond dewisol) i egalitariaeth, i un sydd wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i blismona ymarferoldeb y farchnad, ac felly derbyn yr anghydraddoldeb a gynhyrchir (ac sy'n ofynnol) gan y farchnad, yn golygu bod y

wladwriaeth gyfoes yn gweithredu (fel y mae Florian Hoffman yn nodi) mewn gofod polisi cymharol lai sy'n lleihau'n strwythurol ei gallu i roi sylw uniongyrchol i'r gofynion a ddygir iddi gan ei hetholwyr, gan gynnwys mewn polisi cymdeithasol ac economaidd.

Mewn byd neo-glasurol nid yw hyn yn broblem; cyfraniad cynhyrchiol unigolyn i'r economi – yn seiliedig ar yr asedau y mae'n berchen arnyn nhw ac ansawdd y llafur y mae'n ei gyflenwi – sy'n pennu'r incwm y mae'n ei dderbyn. Fel y dywed James Heintz: mae hyn yn cynrychioli dehongliad penodol o'r syniad o degwch: mae'r hyn mae pobl yn ei gael o'r economi yn seiliedig ar yr hyn maen nhw'n ei roi ynddi.

Mae hyn mewn cyferbyniad (llwyr) â'r rhan fwyaf o ffurfiau o gyfiawnder dosbarthol; mae tegwch a chyfiawnder cymdeithasol yn cael eu diffinio amlaf yn nhermau canlyniadau a gaiff eu gwireddu y gellir eu mesur ar hyd nifer o ddimensiynau: incwm, cyfoeth, iechyd, neu addysg, ymhlith eraill.

Mae hyn wedi golygu bod eiriolwyr neoryddfrydiaeth yn wrthwynebus iawn tuag at hawliau ECD gan eu bod yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod gan y wladwriaeth ddyletswydd i ymyrryd a gorfodi ailddosbarthu os yw'r marchnadoedd yn methu â chynhyrchu canlyniadau sy'n gydnaws â hawliau ECD. O'r herwydd mae hawliau ECD yn rhwystrau i ddyrannu adnoddau prin yn effeithlon trwy fecanweithiau'r farchnad ac, o'r herwydd, yn ystumio ffurfiant 'gwerth marchnad cyfiawn' nwyddau sylfaenol o'r fath fel gofal iechyd, addysg, tai, neu fwyd, dŵr a glanweithdra.

Ystyrir bod hawliau ECD yn sefyll yn ffordd mesurau llymder sy'n ofynnol i gywiro polisiâu lles (honedig) aneffeithlon sy'n honni eu bod yn darparu'r nwyddau hyn trwy gynlluniau ailddosbarthu. (Florian Hoffman)

Dyna yw gwrthwynebiad “**gormod**” neoryddfrydiaeth i hawliau ECD.

Yn ymarferol, fodd bynnag, mae gan hyd yn oed y taleithiau hynny sydd fwyaf cysylltiedig â neoryddfrydiaeth ryw fath o “rwyd ddiogelwch” sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'n ymddangos na ellir goddef holl ganlyniadau'r farchnad yn wleidyddol.

Mae perthynas neoryddfrydiaeth â mewnfudo yn gymhleth hefyd: ar y naill law mae marchnadoedd effeithlon yn dibynnu ar symud llafur yn ddirwystr (yn union fel cyfalaf); Mae eraill wedi dadlau bod angen cadw (hyd yn oed dyfeisio) tensiynau er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r rhaglen rhyddfrydoli economaidd a all achosi aflonyddwch enfawr i gysylltiadau cymdeithasol – potensial i atgyfnerthu stereoteipio.

Ar ben hynny, mae taleithiau neoryddfrydol yn cael eu cyhuddo o ganfyddiadau o annhegwch sy'n deillio o'u cymeriad gwrth-ddemocrataidd a'r anghydraddoldeb mewn pŵer gwleidyddol sy'n deillio o anghydraddoldeb materol crynswth: neu i'r gwrthwyneb. Fel y dywedodd yr hanesydd o Ganada Quinn Slobodian: gwyddom bellach fod neoryddfrydwyr yn pregethu llai am enciliad sefydliadau gwladol ac uwchgenedlaethol na'u hail-lunio [yn unol â'u delwedd eu hunain].

Mae y tu hwnt i bamedrau'r sgwrs hon i ddadansoddi'r holl lenyddiaeth sy'n mynd i'r afael â rhinweddau neoryddfrydiaeth yn erbyn ei thermau ei hun; i ba raddau y mae ei hegwyddorion wedi cael eu cymhwyso mewn modd cyson, a ble: a'r cwestiwn dyrys ynghylch a yw'n gweithredu i gadw crynodiadau uchel o bŵer economaidd a gyflawnir, nid trwy ffundamentaliaeth y farchnad gymaint â 'chipio gwleidyddol'.

Yr hyn sy'n amlwg yw bod lefelau uchel neoryddfrydiaeth o anghydraddoldeb (a'i symptomau) wedi achosi pryder sylweddol, yn enwedig ar ôl yr Argyfyngau Ariannol Byd-eang yn 2008. Dywedodd Obama mai anghydraddoldeb yw'r her sy'n diffinio ein cyfnod ac mae Nodau Datblygu Cynaliadwy 2015 yn cynnwys Rhif 10 sy'n ceisio lleihau anghydraddoldeb o fewn ac ymhlith gwledydd. Mae'r cyfraddau anghydraddoldeb wedi ysgogi Banc y Byd, yr IMF a sefydliadau ariannol prif ffrwd eraill i annog mesurau gan wladwriaethau i leihau anghydraddoldeb er mwyn gwella perfformiad economaidd.

Mae'n amlwg bod y canlyniadau cymdeithasol ac economaidd yn ogystal ag anghydraddoldeb ei hun wedi bod yn berthnasol iawn i wrthwynebwyr traddodiadol ffundamentaliaeth y farchnad neoryddfrydol; egalitariaid ar y chwith (rwy'n ceisio osgoi gormod o gategorïau neu wahaniaethau yma!)

Nid yw'r chwith (neu rywfaifaint ohono) wedi cyd-fynd o reidrwydd nac erioed â chefnogwyr hawliau dynol, ond yn ddiweddar mae ei lais wedi bod yn gymharol amlwg wrth ddadlau bod Hawliau Dynol (HD), gan gynnwys hawliau ECD, wedi dangos diffyg diddordeb ar y gorau, ac ar y gwaethaf wedi cyfranogi yng ngormodedd gwaethaf neoryddfrydiaeth.

Gwnaeth yr hanesydd Americanaidd Samuel Moyn yr honiad enwog bellach bod hawliau dynol sydd wedi'u gwireddu'n berffaith yn gydnaws ag anghydraddoldeb, anghydraddoldeb radical hyd yn oed. Ar ben hynny, mae'r rhai ar y chwith yn honni bod cyfraith hawliau dynol ryngwladol wedi disodli mudiadau gwleidyddol mwy egalitaraidd, dim ond i'w disodli nhw gyda'r addewid ffug o “ddigonolrwydd”: dim ond llawr o amddiffyniad rhag tlodi (Moyn). Yn ogystal â'r feirniadaeth hon o'r chwith mae ffocws unigol a chyfreithiol hawliau dynol yn eu gwneud yn anaddas ar gyfer y dasg o drawsnewid economaidd-gymdeithasol.

Y feirniadaeth hon gan y chwith yw'r gwrthwynebiad “**dim digon**” i hawliau ECD.

Mae'r cyfraddau uchel o anghydraddoldeb wedi poeni sylwebwyr a meddylwyr hefyd sydd wedi ysbrydoli'r asgell dde eithaf, fel Patrick Deenen. Mae'n beirniadu rhyddfrydiaeth yn fwy cyffredinol, yn rhannol medd, oherwydd ei bod yn mawrygu hawliau cyfartal wrth feithrin anghydraddoldeb materol anghymaradwy. Mae'n siarad am gyfyngiadau'r farchnad a'r angen i inswleiddio gofynion yr hyn a ddisgrifia fel bywyd llewyrchus rhag grymoedd marchnad sydd wedi'u gor-ryddfrydoli, gan gynnwys ffactorau cymdeithasol, fel lle, teulu a galwedigaeth.

Fodd bynnag, nid yw poblyddwyr y dde eithaf fel Trump a'i efelychwyr, Farage, wedi siarad rhyw lawer am anghydraddoldeb economaidd; mae'n well ganddyn nhw ganolbwyntio yn hytrach ar yr hyn maen nhw'n ei ddisgrifio fel 'mudo economaidd'. Yn gyson â holl arwyddion poblyddiaeth unigryw, maen nhw'n anghytuno â chyffredinoliaeth hawliau dynol fel hawliau y bwriedir i bawb eu cael yn gyfartal, gan ddiwynnu oddi wrth unrhyw fath o hunaniaeth gyfunol. (Florian Hoffman).

Dyna wrthwynebiad “nid nhw!” y dde eithaf i hawliau ECD.

Sy'n dod â fi yn ôl i'r pwynt ffurfdro

Fel y dywed Florian Hoffman:

“the political empowerment of the populist right, and the centrality the critique of human rights plays in its rhetorical strategy, makes this crunch time for human rights— a time, in other words, in which even the critique within the confines of intellectual debate is not politically innocent but has to account for the consequences of the vision it enounces.”

Yn amlwg mae hyn ddeg gwaith yn fwy gwir y tu allan i'r academi ac yn siambrau seneddol democratiaethau rhyddfrydol.

A'r persbectif hwn sy'n gwneud i mi gredu nid yn unig y dylem ymgorffori hawliau ECD, ond y bydd methu â gwneud hynny ar yr eiliad dyngedfennol hon yn arwain at ganlyniadau gwleidyddol o bosibl ymhell y tu hwnt i bamedrau caeth hawliau ECD.

Wrth gyflwyno fy achos, byddaf yn trafod y tri gwrthwynebiad.

Gan ddechrau yn gyntaf gyda'r feirniadaeth bod neoryddfrydiaeth yn “ormod”

Y tair beirniadaeth

- “Gormod”

Mae'r ddadl 'gormod' yn rhy ideolegol, yn hynod afrealistig ac yn foesol anamddiffynadwy. Mae gwrthwynebiad neoryddfrydiaeth mewn egwyddor i bob math o ymyrraeth yn y farchnad, a goddefgarwch o *ba raddau bynnag* o anghydraddoldeb y mae marchnadoedd yn ei gynhyrchu, yn gwneud neoryddfrydiaeth yn gwbl gyfranogol yn y lefelau uchel o anghydraddoldeb a'i sgil-ffeithiau sydd wedi cyd-fynd â hynny, gan gynnwys y canlyniadau ar gyfer cydraddoldeb gwleidyddol.

Felly mae gwladwriaeth neoryddfrydol yn anrhyddfrydol. Fel athro cyfraith gyhoeddus a chyfansoddiadol yn Ysgol Economeg Llundain, mae Tarunabh Khaitan yn dadlau bod anghydraddoldeb materol dybryd yn broblemus i gyfansoddiadaeth ryddfrydol am resymau cyfrannol – mae'n gwrth-ddweud yr addewid rhyddfrydol o gydraddoldeb gwleidyddol, a thrwy hynny'n gwneud y gyfundrefn yn anghyfreithlon.

Mae'n dadlau fel hyn:

“under conditions of extreme material inequality, fair political opportunity cannot be satisfied by mere formal equality of votes. Because of the nature of social and economic power, disempowered groups sometimes need to be given a measure of political insurance by constitutions in order to prevent their being locked out of power. Because political lockout of a group is a constitutional rather than a (mere) policy problem, there is a strong case for liberal constitutions to afford a measure of political insurance to the poor.”

Mae'n bosibl y gallai'r yswiriant gwleidyddol angenrheidiol i'r tlawd fod mewn sawl ffurf wahanol; un y mae Khatian yn honni sy'n amddiffyniad barnwrol cadarn o hawliau cymdeithasol.

Fel yr eglura'r Athro Katie Boyle, mae gorfodi hawliau ECD yn gyfreithiol yn cyfateb i egwyddorion democrataidd trwy sicrhau bod gan y grwpiau sydd ar y cyrion gwleidyddol fecanwaith cyfreithiol y gellir cyfleu eu honiadau cyfiawnder dosbarthol drwyddo mewn modd sy'n gorfodi llywodraethau... i ymateb”; mae hi'n honni bod hawliau ECD yn offeryn gwrth-fwyafriyddiaeth; nodwedd o ddemocratiaeth gydgyngorol sy'n ffurfio (rhan o'r) ymateb i'r feirniadaeth ynghylch cyfreithlondeb democrataidd, a bod hynny bron bob amser yn cyd-fynd â'r gwrthwynebiad am aneffeithlonrwydd y farchnad.

Felly yn fy marn i mae hynny'n ddigonol heb fwy i drechu gwrthwynebiadau anrhyddfrydol y gwrthwynebiad “gormod”. 1 dim o blaid hawliau ECD.

Fel y dywedais eiliad yn ôl, mae'r rhan fwyaf o gyfundrefnau neoryddfrydol yn goddef rhyw fath o amddiffyniad cymdeithasol aildosbarthol yn y pen draw, (mae UDA a'r DU ychydig yn is na chyfartaledd yr OECD, sef 20% o gynnyrch domestig gros ar wariant cymdeithasol cyhoeddus). Felly, yn ymarferol, y cwestiwn o sylwedd go iawn bob amser fydd a yw'r cynlluniau hyn yn ddigon?

Yma eto, mae cydbwysedd y ddadl yn amlwg o blaid hawliau ECD. Er bod amwysedd heb ei ddatrys ynghylch a oes rhaid diffinio'r llawr isaf (a elwir yn 'Rhwymedigaeth Graidd Isaf') mewn termau absoliwt neu gymharol, rhaid iddo o leiaf warantu bwydydd hanfodol, gofal iechyd sylfaenol, lloches a thai sylfaenol, addysg ac ati.

Y tu hwnt i'r lefel honno, mae gwladwriaethau'n mwynhau elfen o werthfawrogiad o ran isafswm cynnwys sylweddol yr hawliau, ond mae yna rwymedigaethau craidd sylfaenol amrywiol sy'n canolbwyntio ar broses y mae'n rhaid eu bodloni hefyd os yw gwladwriaeth am weithredu mewn ffordd sy'n cyd-fynd â hawliau ECD. Mae'r rhain yn cynnwys cydymffurfio â'r ddyletswydd i wireddu mwynhad o hawliau ECD yn gynyddol gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael, y mae Boyle yn ei ddehongli fel gofyniad ar wladwriaeth i gyflawni yr holl fesurau angenrheidiol er mwyn sicrhau isafswm sylfaenol o'i gymharu â chyfoeth y wlad yn ogystal â defnyddio trothwy normadol gwrthrychol o ran isafswm craidd absoliwt y gellir ei orfodi ar unwaith.

Mae gan hyn arwyddocâd gwirioneddol: er enghraifft, nid yw cyfraddau buddion cynhaliaeth yn y DU yn cael eu cysylltu ag *unrhyw* asesiad gwrthrychol o anghenion byw hanfodol (cymharol neu absoliwt). Mae'r cyfraddau (sy'n llai hael yn gymharol o'u cymharu â gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd) wedi cael eu cymharu dro ar ôl tro i lefelau cynyddol ansicrwydd bwyd ac ynni yn y DU. Gellid gwneud yr un pwynt am lawer o raglenni eraill nad ydyn nhw'n bodloni'r gofynion lleiaf, fel argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl i blant (sydd wedi'u tanariannu'n ofnadwy).

Mae safonau gofynnol sylweddol yn draddodadwy hefyd: fel y dywedodd yr Arglwydd Reed yng nghyd-destun her gwahaniaethu yn erbyn 'rheol dau blentyn' yr Adran Gwaith a Phensiynau, nid oes unrhyw safonau cyfreithiol y gall llys eu defnyddio i benderfynu ble

dylid taro'r cydbwysedd rhwng buddiannau plant... a buddiannau'r gymuned yn ei chyfanrwydd (*R (SC and others) v Secretary of State for Work and Pensions* [2021] UKSC 26; [2022] AC 223 ym mharagraff 208).

O'i ystyried drwy brism her gwahaniaethu a oedd yn gosod buddiannau'r plant a amddifadwyd o'u hawl i gynhaliaeth yn erbyn y gymuned yn ei chyfanrwydd, mae'n bosib bod y barnwr uchaf yn y wlad yn iawn.

Ond ni fyddai wedi gallu penderfynu ar yr achos yn y ffordd y gwnaeth pe bai safon isafswm o hawliau ECD sylweddol nad oedd yn ymddangos yn israddol wedi bod ar waith: mae 'digonolrwydd' yn gallu gwneud penderfyniad yn wrthrychol yn unol â meini prawf tryloyw (gweler *R (Refugee Action) v Secretary of State for the Home Department* [2014] EWHC 1033 (Admin); [2014] PTSR D18).

Mae rhai diwygiadau lles diweddar wedi bod yn ddadleuol yn union oherwydd eu bod yn fwriadol yn gadael cartrefi heb ddigon o arian i fyw arno. Mae'r 'cap budd-daliadau' yn effeithio'n bennaf ar famau sengl sy'n byw mewn rhannau o'r wlad lle mae rhenti'n uwch na'r cyfartaledd. Os nad ydyn nhw'n gallu, neu os ydyn nhw'n amharod i symud i ardaloedd lle mae rhenti'n sylweddol is, mae'r cap yn golygu na allant gael y lefel o fudd-dal cynhaliaeth y byddai ganddyn nhw'r hawl iddo fel arfer. Yn yr un modd, mae'r 'rheol dau blentyn' yn cyfyngu ar faint o fudd-dal y gall teulu o unrhyw faint ei dderbyn i'r hyn y mae gan aelwyd â dau blentyn hawl iddo. Efallai nad yw'n syndod bod y dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r polisïau hyn yn gweithio mewn gwirionedd. Canran fach iawn o'r rhai yr effeithir arnyn nhw gan y cap budd-daliadau sy'n symud i waith ac, hyd yn oed wedyn, nid yw'n glir ai'r catalydd oedd y cap, yn hytrach na phlentyn yn cyrraedd oedran ysgol, er enghraifft (*R (DA and others) v Secretary of State for Work and Pensions* [2019] UKSC 21; [2019] 1 WLR 3289). Nid oes unrhyw dystiolaeth chwaith bod y rheol budd-dal 2 blentyn wedi arwain at fwy o bobl yn gweithio – yn lle hynny mae wedi cynyddu nifer y plant sy'n byw mewn tlodi 1.1 miliwn o blant, neu'n agos at un o bob deg o blant yn y DU: mae'r nifer hwnnw'n cynyddu. (Stewart 2023)

Yn ddiau oherwydd yr anghydraddoldebau hyn, mae unfrydedd bellach ar draws y sbectrwm gwleidyddol y dylid dileu'r rheol 2 blentyn, ond nid yw hynny'n fawr o gysur i'r 1.1 miliwn o blant yr effeithir arnyn nhw yn andwyol ganddi. Pe bai gennym hawliau ECD, credaf na fyddai'r rheol wedi cael ei chyflwyno erioed neu efallai na fyddai wedi goroesi her gyfreithiol (sy'n ddewis olaf bob amser – mwy ar hynny yn y man).

Yn fy marn i, roedd y ddwy ystyriaeth gyntaf hyn yn rhoi diwedd ar y ddatl 'gormod'. Byddai hawliau ECD yn ffurf ddemocrataidd gyfreithlon (os nad hanfodol) o *amddiffyniad gwleidyddol* i'r tlawd mewn cymdeithas sydd fel arall yn hynod anghyfartal ac yn sicrhau, o leiaf, bod ymyriadau cymdeithasol yn gydnaws ag anghenion byw hanfodol.

Ac o ran gwrthwynebiad aneffeithlonrwydd y farchnad, fel y nododd King, erbyn hyn mae data empirig cadarn yn gwrthbrofi yr hen honiad bod gwladwriaethau lles mawr yn atal perfformiad economaidd; cofiwch mai'r tlawd a'r dosbarth canol sy'n bwysig ar gyfer twf. Ar ben hynny, os gall damcaniaeth neoryddfrydol ddarparu ar gyfer arafu twf economaidd a achosir gan lefelau uchel o anghydraddoldeb ar y brig, byddai'n anamddiffynadwy yn foisol iddi beidio â goddef unrhyw arafu y gellid ei briodoli i 'amherffeithrwydd y farchnad' yn deillio o ailddosbarthu cwynion am hawliau ECD ar y gwaelod.

Felly, yn ôl fy nadansoddiad i mae bellach yn 2 - 0 o blaid hawliau ECD, heb unrhyw obaith realistig i'r tîm neoryddfrydol ddod yn gyfartal.

Y gwrthwynebiad 'dim digon'

Mae'r dadleuon sy'n honni nad yw hawliau ECD 'yn ddigon' wedi'u gwreiddio'n rhannol mewn dadansoddiad hanesyddol sy'n tynnu sylw at y ffaith bod trafodaeth hawliau dynol wedi dod i amlygrwydd ar yr un pryd â neoryddfrydiaeth, ac felly'n cyd-daro â, ac, o un safbwynt o leiaf, heb ddim i'w ddweud am y cyfraddau uchel iawn o anghydraddoldeb a achosir gan neoryddfrydiaeth.

Ar sail y rhesymeg honno, mae'n ymddangos bod hawliau dynol yr un mor euog am anghydraddoldeb difrifol â'u hefelychwr neoryddfrydol.

Un broblem allweddol gyda'r ddadl flaenorol yw nad oes unrhyw gydberthynas wirioneddol, o leiaf o ran anghydraddoldeb o fewn y wlad mewn gwladwriaethau cyfoethog. Pam? Oherwydd nad oedd modd gorfodi hawliau ECD i raddau helaeth yng nghyfundrefnau cyfreithiol y gwladwriaethau hynny.

Mae hwn yn gleddyf daufiniog wrth gwrs; mae dangos effaith gadarnhaol ar gyfiawnder cymdeithasol *ar raddfa* y gellir ei phriodoli i hawliau ECD gorfodadwy yn unig yn anodd o reidrwydd, ac mae'n briodol cydnabod bod y dystiolaeth o effaith o'r fath yn dameidiog.

O dan yr amgylchiadau, mae diffyg gwrthffeithiol. Ni allwn ddweud gyda sicrwydd pe bai hawliau ECD wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol er enghraifft, na fyddem wedi profi'r chwarter canrif ddiwethaf yn y modd yr ydym; a byddem yn rhywle gwahanol iawn erbyn hyn.

Serch hynny, fy marn i yw y gallwn ragweld yn ddiogel y byddai gorfodi hawliau ECD yn y fan a'r lle, ar y pwynt ffurfdro hwn yn fuddiol, hyd yn oed os yw maint y budd yn y pen draw yn anoddach ei ragweld o reidrwydd.

Mae'r ddadl hon yn troi'n ddi-sail os gellir dweud yn hyderus, oherwydd eu terfynau cysyniadol, na fyddai hawliau ECD wedi gwneud unrhyw wahaniaeth diriaethol.

Mae hyn yn dod wyneb yn wyneb â'r broblem, pe na bai amodau neoryddfrydol yn cynhyrchu canlyniadau marchnad sy'n gyson â MCO, byddai hawliau ECD wedi gorfodi gwladwriaethau neoryddfrydol i ymyrryd: fel yr ydym wedi gweld, byddai'r beirniaid 'gormod' yn ystyried ymyrraeth o'r fath yn wrthgyferbyniol i egwyddorion mwyaf sylfaenol neoryddfrydiaeth. Ar ben hynny, i'r graddau mai'r feirniadaeth yw bod y gyfundrefn hawliau dynol (a gwladwriaethau neoryddfrydol) wedi'u cyfyngu i gyfraddau ailddosbarthu sy'n gyson â 'digonolrwydd' materol (yn hytrach na chydraddoldeb), nid yw'n ystyried dadl Boyle bod isafswm craidd yn nodi dim mwy na man cychwyn sylfaenol ar gyfer darlun o hawliau ECD llawer mwy.

Felly ar un olwg, mae hyn eisoes yn ddigon i wrthbrofi'r brif ddadl 'dim digon': efallai bod hawliau ECD wedi gwneud gwahaniaeth diriaethol iawn.

Ond gan roi hynny o'r neilltu, mae dwy agwedd yn weddill ar y feirniadaeth hon sy'n haeddu sylw pellach yn fy marn i. Yn gyntaf, o ddeall yn iawn, nad oes hawl i gydraddoldeb (materol) sydd wedi'i gynnwys yn y cytuniadau Cyfraith Hawliau Dynol Rhyngwladol, ac yn ail, o'i gymharu â gwleidyddiaeth o leiaf, mae cyfyngiadau gwirioneddol i 'ddeddfoldeb' hawliau dynol.

Rwy'n cytuno â'r ddwy feirniadaeth, i ryw raddau. Ond rwy'n parhau i fod yn hyderus o'r llinell sgôr gyffredinol.

Mae'r honiad drwg-enwog bellach a wnaed gan Moyn bod hyd yn oed hawliau dynol sydd wedi'u gwireddu'n berffaith, yn gydnaws ag anghydraddoldeb radical, ac nad oes gan hawliau dynol ddim i'w ddweud am anghydraddoldeb, wedi'u disgrifio gan yr Athro Philip Alston, Cofnodwr Arbennig Tlodi Eithafol fel nonsens llwyr.

Fodd bynnag, fel mater o reolau cyfreithiol sefydledig, fel y cydnabu'r Athro Alston, mae'n wir nad yw cyfraith hawliau dynol yn cynnwys hawl i gydraddoldeb materol yn benodol.

Nid yw hyn wedi atal llawer, gan gynnwys Alston, rhag dadlau bod yna, serch hynny, derfynau o ryw fath i raddau anghydraddoldeb y gellir eu cysoni â syniadau o gydraddoldeb, urddas ac ymrwymïadau i hawliau dynol i bawb (Alston 2015).

Dywed Lee:

“Economic inequalities, when deep and persisting, severely restrict individual choices and undermine the dignity and self-respect of persons with low income and wealth, placing those people at inferior status (Beitz 2001; UNDP 2013). These inequalities, as such, are incompatible with human rights because everyone’s equal moral worth constitutes the very premise of human rights, as recognized in Article 1 of the Universal Declaration of Human Rights, which states: “[a]ll human beings are born free and equal

in dignity and rights.” International human rights law does not require economic equality per se, but equality in dignity. Economic inequalities that perpetuate the divide between people offend the grounding idea of human rights, the equal dignity of each person.”

Er gwaethaf hyn, yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol a Chyrff Monitro Cytuniadau eraill wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar effaith *anuniongyrchol* anghydraddoldebau fertigol mewn safle economaidd ar anghydraddoldebau llorweddol (rhwng grwpiau a ddiffinnir yn ddiwylliannol neu a gaiff eu creu'n gymdeithasol), a'u heffaith andwyol ar lefelau cymharol o fwynhau hawliau sylweddol gan wahanol grwpiau.

Mae MacNaughton wedi edrych yn feirniadol ar brif destunau hawliau dynol ac wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw beth sy'n eu cyfyngu i anghydraddoldebau llorweddol ac yn gwahodd dehongliad bwriadus a fyddai yn y bôn yn rhoi cymaint o sylw i anghydraddoldebau fertigol ag y mae anghydraddoldebau llorweddol wedi'i dderbyn.

Waeth a dderbynnir y dehongliad hwn ai peidio yn y pen draw, mae'n amlwg yn fy marn i y byddai normau hawliau ECD a gaiff eu derbyn yn brwydro yn erbyn anghydraddoldeb.

Mae Erthygl 2(1) y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol yn cynnwys y rhwymedigaeth i [wireddu'n raddol](#), heb wahaniaethu, hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pawb, gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i fwynhau'r hawliau hyn wella'n unffurf ar draws y boblogaeth - efallai y bydd angen mesur o anghydraddoldeb er budd hyd yn oed y lleiaf cefnog mewn cymdeithas. Fodd bynnag, lle nad yw hynny'n wir bellach, oherwydd er enghraifft bod cyfraddau anghydraddoldeb yn niweidio twf, mae lefel mwynhau'r hawliau sylweddol gan rai ar ei hôl hi o gymharu ag eraill heb gyfiawnhad. Rhy bell mewn geiriau eraill. I mi byddai hynny'n ymddangos fel pe bai'n sail ddamcaniaethol ar gyfer torri hawliau. Felly, er nad oes hawl i fod yn gyfartal, mae hawl i fod yn llai anghyfartal.

Byddai'r dehongliad hwn o'r ddyletswydd hawliau dynol i ddefnyddio'r adnoddau mwyaf posibl i wireddu hawliau ECD yn raddol yn gyson â rhyddfrydiaeth hefyd, o leiaf ffurf ar ryddfrydiaeth fel y'i diffinnir gan John Rawls: fel y mae'r Athro Taitun yn ei grynhoi; sef

democratiaeth lle perchnogir eiddo, lle mae sefydliadau cefndirol yn sicrhau bod perchnogaeth cyfoeth a chyfalaf yn cael eu gwasgaru mewn cymdeithas yn hytrach na'u canoli gan yr ychydig. Prawf bod neoryddfrydiaeth yn methu maes o law.

Felly ni fyddai defnyddio Erthygl 2(1) fel hyn yn rhy ddadleuol o ran damcaniaethau confensiynol o gyfiawnder dosbarthol.

O ran normau a ddaw i'r fei, mae MacNaughton yn tynnu sylw hefyd at hyn:

“Where economic inequalities are obstacles to the full realization of rights, they must adopt policies to reduce income and wealth inequalities. Thus, governments must take action to ensure that they adopt progressive tax policies, efficiently collect taxes, improve detection of tax abuse, and restrain from granting excessive tax concessions to attract business. Reducing vertical inequalities requires greater attention to the wealth and income of the high-income people, especially the top 1 percent. Moreover, to ensure that policies are consistent with their human rights obligations, including the imperative to reduce income and wealth inequalities, governments must implement human rights impact assessments of proposed policies prior to adopting and implementing them.”

I'r perwyl hwn, yn fy marn i, hyd yn oed yn absenoldeb hawl benodol i gydraddoldeb, gall y normau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg arwain at **dynnu cyfeiriadol** cryf tuag at fwy o gydraddoldeb fel bod effeithiau mwy niweidiol angydraddoldeb yn cael eu lliniaru.

Fodd bynnag, fel y nododd Nolan a Bohoslavsky yn 2020, er bod camau breision wedi'u cymryd o safbwynt cysyniadol dros y degawd diwethaf trwy ddatblygu dealltwriaeth o gwmpas rhwymedigaethau hawliau dynol o safbwynt llunio polisiau economaidd, mae'r cynnydd yn parhau i fod yn gyfyngedig o ran cymedroli effeithiau gwaethaf polisi economaidd dominyddol.

Felly, fel y gwnaeth Alston annog, mae angen i'r rhai sy'n cynnig hawliau dynol ailystyried llawer o'u rhagdybiaethau, ail-werthuso eu strategaethau, ac ehangu eu hallgymorth, gan ar yr un pryd, beidio â rhoi'r gorau i'r egwyddorion sylfaenol.

Byddwn yn ychwanegu at hynny bod yn rhaid i ni (rwy'n cynnwys fy hun fel cynigwr hawliau dynol hollbwysig) sefyll yn gadarn yn ein dealltwriaeth bod economïau mwy cyfartal yn cynhyrchu gwell canlyniadau i bawb ac os yw hynny'n golygu mynegi cred bod economïau cymysg sy'n seiliedig ar egwyddorion democrataidd cymdeithasol yn well o *ran hawliau dynol* na'u iteriadau mwy neoryddfrydol, yna dylen nhw ddweud hynny, a hynny'n ddi-flewyn ar dafod.

Troi at derfynau deddfoldeb.

Mae hwn yn bwnc mawr a phwysig a dim ond megis codi'r llen y gallaf ei wneud ar hyn o bryd.

Mewn gwirionedd, mae tair prif is-feirniadaeth o hawliau ECD.

1. Nid yw ymglyfreitha hawliau yn addas iawn i fynd i'r afael â thorri hawliau strwythurol.

Mae'n amlwg bod rhai cyfyngiadau i'r hyn y gall ymglyfreitha ynghylch hawliau ECD ei gyflawni ar ei ben ei hun, er bod cryn gwmpas yn rheolau gweithdrefnol a phwerau adfer y Llys sy'n ehangu ei effaith – mae Boyle wedi ysgrifennu'n helaeth ar yr opsiynau yn hyn o beth, a sut, er enghraifft, y gallai gweithredoedd dosbarth neu ffurfiau creadigol o ryddhad gorfodol sicrhau bod nifer fawr o ddeiliaid hawliau yn cael iawn. Mae enghreifftiau cadarn o awdurdodaethau cyfraith gyffredin eraill.

Mae'r pryderon pwysig ynghylch gallu sefydliadol a chyfreithlondeb y llysoedd i ddadansoddi a phenderfynu ar faterion polycentrig cymhleth hefyd wedi cael cryn sylw gan ysgolheigion hawliau ECD. Mae'r pryderon yn haeddu'r sylw hwnnw, ond gellir eu gorbwysleisio.

Mae Boyle a King ill dau yn pwysleisio pwysigrwydd rôl y llys fel gwiriad atebolrwydd ar y weithrediaeth neu'r ddeddfwrfa. Mae'r llys yn cymhwyso graddfa'r gohirio sefydliadol sy'n

briodol i'r cyd-destun penodol, gan gynnwys graddfa'r toriad honedig, i ba raddau y mae nodau datganedig y polisi wedi'u nodi'n gydlynol gan y llywodraeth, ac a yw'r mesur yn debygol o fod yn effeithiol. Felly, fel ymyrrwr wrth orfodi hawliau ECD, [mae'r llys] yn rhan bwysig o ddeialog aml-sefydliad sy'n sicrhau atebolrwydd yn hytrach na throsglwyddo pŵer gwleidyddol. Mae hon yn dasg lle mae'r llysoedd eisoes yn hyddysg yng nghydestun hawliau Sifil a Gwleidyddol, sydd â goblygiadau sylweddol o ran adnoddau yn aml hefyd.

Mae'r dasg a gyflawnir gan y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol lled-gyfreithiol wrth adolygu cyfres y Llywodraeth Glymblaid o fesurau cyni yn achos o'r fath. Dadleuodd y Llywodraeth fod ei rhaglen gyntaf yn gydnaws â Chyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Nid oedd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn cytuno. Gan gymhwyso'r egwyddor o beidio â gwrthdroi, mynegodd bryderon difrifol am yr effaith anghymesur, andwyol y mae mesurau cyni [yn ei chael ar fwynhad hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol gan unigolion a grwpiau difreintiedig ac ymylol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad hwn yn rhannol oherwydd na allai'r Llywodraeth ddangos bod y polisiau wedi cael yr effaith a fwriadwyd; nid oedd y dirywiad a dargedwyd yn y diffyg cenedlaethol wedi'i wireddu mewn gwirionedd.

Y dewis olaf yw ymglyfreitha mewn unrhyw achos bob amser. Bydd effaith ddwys hawliau ECD yn y fframwaith hawliau y mae'n eu rhoi i ddeiliaid hawliau a deiliaid dyletswydd fel ei gilydd: yng nghanol cymhlethdod a pherygl cynhenid y byd modern, mae'r fframwaith hawliau dynol yn cynnig ffordd drwy hyn sy'n osgoi neu'n lleihau'n gydwobodol trin unrhyw unigolyn neu unigolion fel rhywbeth cyfleus. Mae'r dull seiliedig ar hawliau dynol yn un cyfranogol hefyd. Rhaid i atebion i dorri hawliau fod yn gynnyrch [ymwneud diffuant a chyd-ddylunio dilys](#) (Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban) gyda'r bobl yr effeithir arnyhau yn uniongyrchol. Fel y dywed Boyle eto:

“Decision-makers, whether that be local authorities, teachers, social workers, the police or medics would benefit from reference to the... rights framework as a tool to execute

their job in ways managerial positionality might overlook. It is a tool of empowerment that cuts both ways.”

2. Mae deddfoldeb yn hegemonaidd yn ei hanfod: yn ôl Boyle, mae'r llys ei hun yn ymgorffori arfer pŵer a yrrir gan elit sy'n atgyfnerthu'r anghydraddoldebau presennol

Gall y graddau y gallai hawliau ECD fod yn effeithiol wrth fynd i'r afael â chanlyniadau andwyol y sefyllfa economaidd bresennol (ac o'r herwydd yn profi i fod yn wrth-hegemonaidd) ddibynnu ar gymhwysiad amser real y normau a dderbynnir a'r rhai sy'n dod i'r amlwg a drafodwyd eiliad yn ôl.

OND mae realaeth gyfreithiol yn ystyriaeth ddifrifol. Ar y naill law gwyddom oll fod y farnwriaeth yn wynebu heriau demograffig. Ar y llaw arall, ceir sawl enghraifft o farnwyr yn dilyn y dystiolaeth mewn achosion dadleuol; er enghraifft, mae'r llysoedd wedi gwrthod methodoleg y weithrediaeth ddwywaith ar gyfer pennu cyfraddau cymorth lloches ar y sail eu bod yn bodloni'r gofyniad statudol o ddigonolrwydd. Pe bai safonau sylweddol hawliau ECD yn cael eu defnyddio, mae'n siŵr y bydden nhw'n gwneud yr un peth eto.

Mae barnwyr yn annhebygol o fod yn bileri radicaliaeth yn y modd y gallai beirniaid ei ddymuno ac yn yr ystyr hwnnw efallai y bydd y rhai ar y chwith yn siomedig bob amser. Ond pe bai fel arall, byddai cyfreithlondeb dyfarnu ynghylch hawliau yn cael ei beryglu. Unwaith eto, mae Jeff King yn dadlau y dylai'r llysoedd wrth orfodi hawliau ECD gymhwyso graddoliaeth ddynamig (trwy hynny mae'n golygu: ymchwilgar, diwyd a gwylidwrus) yn seiliedig ar egwyddorion cyfarwydd cyfyngiadau barnwrol; mae'n mynnu na ddylen ni resynu ynghylch hyn, a byddwn i'n cytuno. Gwell fyth yw sicrhau bod dyfarnu hawliau ECD yn ddichonol ac yn bosibl yn gyfansoddiadol.

Unwaith eto, nid yw'n ymwneud â chyfreitha a barnwyr. Mae hefyd yn bwysig iawn ystyried yr effaith ysgogol y gall hawliau cymdeithasol ei chael ar eiriolaeth a gweithredu cymdeithasol.

Mae hawliau cymdeithasol angen gweithredu cymdeithasol, ac mae gweithredu cymdeithasol angen hawliau cymdeithasol.

Yr hyn sy'n bwysig yw nad yw cynnwys hawliau dynol yn sefydlog. Mae 'model cyfansoddol' Dancy a Farris yn dweud:

“Human rights law is forged through, and reinforcing political struggles between the weak and the powerful...[and that] by conceiving of rights as a contestable, modifiable and flexible political construction whereby rights are built, rather than asserted it acknowledges, the need to forge rather than assume political trust.”

Mae eraill wedi pwysleisio pwysigrwydd symud diwylliant hawliau dynol y tu hwnt i 'enwi a chywilyddio' a thuag at 'fframio a hawlio'.

Felly mae gan hawliau eu rôl i'w chwarae mewn ymgiprys gwleidyddol...

Ond mae'r drydedd is-feirniadaeth yn cwestiynu hyn.

3. Hawliau Dynol yn 'gwthio gwleidyddiaeth o'r neilltu'

Mae Moyn ac eraill wedi priodoli dirywiad gwleidyddiaeth egalitaraidd fwy agored i'r cynnydd yn amlygrwydd hawliau dynol, ac felly'n honni bod yr addewid ffug o hawliau dynol wedi bwrw sylw ac egni oddi wrth y frwydr am adnoddau a phŵer gwleidyddol, gan baratoi'r ffordd ar gyfer neoryddfrydiaeth ddiwrthwynebiad.

Fel gydag unrhyw adroddiad hanesyddol o'r fath, byddai angen hanesydd i roi barn i'r gwrthwyneb, os oes un i'w hadrodd. Nid fi yw'r person hwnnw. Ond mae gen i resymau i fod yn amheus. Mae'n siŵr bod i ba raddau yr oedd yr addewid o hawliau dynol yn ffug yn rhannol oherwydd na allai pobl orfodi eu hawliau ECD; felly, nid dadl yn erbyn eu gwneud yn orfodadwy yn awr yw'r adroddiad hanesyddol. Hefyd, fel y mae Alston wedi tynnu sylw ato, efallai nad yw safbwynt Moyn wedi ystyried enghreifftiau go iawn o ble y defnyddiwyd

hawliau cymdeithasol yn llwyddiannus i ysgogi adnoddau yn erbyn neoryddfrydiaeth. Nid yw'r ffaith nad oedd y brwydrau hynny wedi llwyddo bob amser yn ei gwneud hi'n wir o reidrwydd na fyddai 'gwleidyddiaeth' wedi gwneud yn well.

Ni ellir gwadu bod gwleidyddiaeth flaengar neu asgell chwith wedi dioddef colled sylweddol ar ôl diwedd y rhyfel oer y gellid dadlau nad yw hi wedi dod drosto. Mae'n ymddangos yn ddisylwedd i mi honni, dim ond oherwydd, yn nhyb rhai gweithredwyr, fod hawliau dynol wedi llenwi gwactod a adawyd gan wleidyddiaeth flaengar glwyfedig, bod hawliau dynol yn gyfrifol am fethiant y chwith i ailgreu ei hun. Dydw i ddim chwaith yn siŵr, dim ond oherwydd bod llawer o bobl â gwleidyddiaeth flaengar wedi arddel, neu yn arddel hawliau dynol, neu i'r gwrthwyneb, bod hynny'n golygu, neu wedi golygu, na allent neu na allant wahaniaethu rhwng y ddau.

Ond wedi dweud hynny i gyd, rwy'n cydnabod pwysigrwydd canolog peidio â gor-werthu potensial trawsnewidiol hawliau dynol. Mae tueddiad i wneud yr union beth wedi tanseilio hygrededd actiffaeth hawliau dynol i ryw raddau: ni ellir gwadu hynny'n synhwyrol. Mae'r cyfuniad o orsymleiddio'r ateb i broblem anodd gyda hawliadau wedi'u gorliwio o awdurdod (er i hawliau pobl yn hytrach nag ewyllys y bobl) yn rhywbeth y mae ymarfer hawliau dynol efallai yn ei rannu â phoblyddiaeth. Wrth gwrs, os yw Hawliau Dynol yn boblyddiaeth, mae'n fath cynhwysol o leiaf.

Poblyddiaeth yw lle dwi'n troi nawr.

- Y gwrthwynebiad **“Nid nhw!”**

Nid wyf wedi honni y gall Hawliau Dynol yn unig ddileu'r lefelau niweidiol o anghydraddoldeb na'i effeithiau. Nid wyf yn honni chwaith mai anghydraddoldeb yw unig achos poblyddiaeth asgell dde. Fel y dywedais o'r blaen, fe'i nodweddir gan gynnull cefnogaeth y cyhoedd yn erbyn ymestyn hawliau cymdeithasol ac economaidd i rai grwpiau y mae'n eu portreadu fel rhai anhaeddiannol; yn draddodiadol, mewnfudwyr (ond, efallai mai nhw yw'r grŵp cyntaf yn unig i gael eu heithrio!).

Nid yw'r poblyddwyr yr Asgell Dde Eithaf yn tynnu sylw at gyfraddau anghydraddoldeb economaidd fel y broblem fel y cyfryw; na grym gwleidyddol gormodol y cyfoethog iawn. Yn hytrach, maen nhw'n cynnig ateb syml i symptomau lefelau uchel neoryddfrydiaeth o anghydraddoldeb; cael gwared arnyn "nhw", a bydd problemau prinder yn ein gwasanaethau cyhoeddus yn diflannu, medden nhw.

Y gwir amdani yw bod yr honiadau hyn yn "nonsens llwyr" wrth gwrs. A dylid tynnu sylw atyn nhw felly bob amser. Ystyriwch sylw Mr McGinnis uchod: nid oes 1.3 miliwn o bobl ar restrau aros tai yn y DU. Mae 1.3 miliwn o aelwydydd (2023). Ond yn 2021/22, dim ond canran fach, sef 0.9% o dai cymdeithasol newydd, gafodd eu gosod i ffoaduriaid.

Mae yna enghreifftiau di-ri eraill o honiadau ffug o'r fath ar naill ochr yr lwerydd a'r llall (ac yn Ewrop – er bod bwyta anifeiliaid anwes yn dal i fod ar frig y rhestr!). Yn llythrennol, dewisais yr enghraifft gyntaf y deuthum o hyd iddi yn y cyfryngau cymdeithasol.

Byddaf yn gadael i chi ddyfalu pam y mae arweinwyr cyfoethog a phwerus y pleidiau hyn yn ymddangos mor awyddus i dynnu'r sylw oddi ar y cyfoethog a'r pwerus.

Mae'r un mor hawdd deall pam eu bod yn targedu mudwyr: maen nhw'n bobl o'r tu allan yn barod. Os ydych chi'n poeni am ddal gafaél ar yr hyn sydd gennych chi, os ydych chi'n teimlo dan fygythiad economaidd; gall fod yn eithaf naturiol i amddiffyn yr hyn sydd gennych chi eisoes neu gredu bod gennych chi ryw hawl â blaenoriaeth iddo.

Dyna pam y gwnaeth UKIP yn dda yn yr ardaloedd sy'n wynebu'r bygythiad economaidd mwyaf - gan gyni.

Dyna pam mae Reform yn targedu seddi Llafur traddodiadol mewn modd mor agored.

Dyma pam y gwelodd Trump symudiad o 15% ymhlith y rhai sy'n ennill llai na \$50,000 a pham mai costau byw a chwyddiant yw'r prif esboniad am ei fuddugoliaeth etholiadol ddiweddar.

Dyna hefyd pam mae'r mudwr yn cael ei wawdlunio'n bennaf mewn termau economaidd; mudwr parasitig; gan anwybyddu'r ffaith bod mudwyr yn gyfranwyr net i economi'r DU ac wedi bod felly erioed.

Prin fod hyn yn newydd. Ac nid yw'r naill na'r llall yn unigryw i strategaethau a dulliau'r dde poblyddol.

Dyma ddywedodd yr actifydd academaidd a gwrth-hiliol Arun Kundani yn 2015:

“The roots of the new stigmatising discourses in Britain can be traced to the mythology surrounding asylum seekers that emerged in the 1990s. Newspapers and politicians blamed asylum seekers for the spread of TB, AIDS and SARS: for failing schools and hospitals; for falling house prices; for low wages, rising crime, prostitution and road accidents. They were even to blame for the dwindling number of fish in Britain’s rivers, the declining number of swans and the disappearance of donkeys. In the short number of years they had been in Britain, they had not only achieved all of this but also held on to a reputation for laziness. If asylum seekers did not already exist, they would have been invented”

O'i weld yn y goleuni hwn, mae gwahaniaethu ar sail economaidd-gymdeithasol yn sail i lawer o'r driniaeth a gaiff mudwyr: eu statws fel yr is-ddosbarth economaidd-gymdeithasol sy'n egluro eu triniaeth arbennig: nid oes gwrthwynebiad i fudwyr cyfoethog sydd hefyd yn dod yma am resymau economaidd; i fuddsoddi mewn eiddo tirol yn y Deyrnas Unedig er enghraifft.

Dydw i ddim yn ceisio lleihau rôl hiliaeth yn hyn o beth. Ond dydy hiliaeth ddim yn ymddangos dros nos nac mewn gwactod. Mae diystyru pryderon cefnogwyr y dde eithaf fel rhai sydd wedi'u cymell neu eu hesbonio gan hiliaeth yn unig yn beryglus iawn gan y gallai barhau (ac mae yn parhau) i guddio'r amodau, ac *achosion* yr amodau hynny, sy'n cynhyrchu ansicrwydd economaidd mewn gwirionedd. Ac, i'r graddau y mae'r achosion hynny'n parhau i gael eu cuddio, ni fyddant yn cael eu datrys. Unwaith eto, fe wnaif adael i chi ddyfalu pam nad yw'r dde eithaf yn ymddangos fel pe bai'n poeni am y gwir achosion.

Yn y pen draw, yn hytrach na phathologeiddio cefnogwyr yr asgell dde eithaf fel pobl hiliol (sy'n fêl ar fysedd eu harweinwyr), llawer gwell yn fy marn i yw gwadu ocsigen y sawl sy'n beio eraill i'w harweinwyr trwy sicrhau bod gan bawb ddigon o fwyd i'w fwyta, tai gweddus i fyw ynndyn nhw, y gofal iechyd gorau sydd ar gael a swyddi â chyflog gweddus.

Felly, bydd y broblem yn diflannu drwy ddeddfu ar hawliau ECD?

Yn anffodus, byddai hynny'r un mor naïf.

Fel yr eglurwyd wrth drafod y cyd-destun ideolegol, mae'r dde eithaf yn gynhenid wrthwynebus i hawliau dynol oherwydd bod poblyddiaeth unigryw y Dde Eithaf yn cael ei gosod benben â chyffredinoliaeth: y gwrthwynebiad “nid nhw!”?

Mae cyffredinoliaeth yn gwbl groes i'w hunaniaeth wleidyddol graidd.

Dyma a ddywedodd “contract” maniffesto Reform am y Ddeddf Hawliau Dynol:

- **Gadael y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.**
- Amddiffyn ein milwyr ar ddyletswydd weithredol y tu mewn a'r tu allan i'r Deyrnas Unedig rhag cyfraith sifil a chyfreithwyr hawliau dynol.
- Dechrau diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol **fel ei bod yn rhoi hawliau pobl sy'n ufuddhau i'r gyfraith yn gyntaf.**
- Disodli'r Ddeddf Cydraddoldeb – Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gofyn am wahaniaethu yn enw 'gweithredu cadarnhaol'. Byddwn yn cael gwared ar reolau Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant sydd wedi gostwng safonau a lleihau cynhyrchiant economaidd

Mae hawliau dynol yn gysylltiedig yn benodol â'r “elit llygredig”: mae cefnogwyr hawliau dynol rhyddfrydol yn uchel eu cloch am gydraddoldeb, ond y gwir amdani yw eu bod yn gofalu amdany nhw eu hunain a'u buddiannau.

Fel y mae Koskenniemi (2021: 58) yn nodi, nid oes a wnelo gwleidyddiaeth ‘adlach’ ag amddifadedd economaidd ond yn hytrach â thrawsnewidiad diwylliannol ac â dial yn erbyn elît gwleidyddol a diwylliannol sy'n defnyddio'r rhethreg rwysgfawr am hawliau dynol i ddsbarthu gwerthoedd materol i'w ffrindiau—estroniaid, lleiafrifoedd, a biwrocratiaid rhyngwladol nad ydyn nhw'n atebol, chwedl Koskenniemi.

Unwaith eto, mae hyn i gyd mor gyfarwydd. Ac wrth gwrs, yr un mor ffug i'r graddau yr honnir bod y Ddeddf Hawliau Dynol yn ymwneud yn unig â gwrthwynebwyr y Dde Eithaf (a'u cathod anwes wrth gwrs).

Ond. Rwy'n bendant o'r farn bod y methiant i gynnwys hawliau ECD, sy'n cael eu disgrifio gan amlaf fel “hawliau bob dydd”, wedi chwarae rhan sylweddol yn y broses o ddifeni hawliau dynol yn gyffredinol a'r gallu i bortreadu hawliau dynol fel teganau'r elit....

Yn sgil eu habsenoldeb, mae hawliau ECD, Sifil a Gwleidyddol (yn gwbl ragweladwy) wedi methu ag amddiffyn y bobl rhag anghydraddoldeb materol enbyd a'r ansicrwydd economaidd sy'n dilyn.

Mae stori Hawliau Dynol wedi cael ei gwerthu'n rhannol. Mae un llaw wedi ei chlymu y tu ôl i'w chefn drwy'r amser!

Sy'n dod â mi i'm casgliad ar y trydydd gwrthwynebiad: beth mae'n ei ddweud am ein llywodraethau eu bod wedi methu ag ymwreiddio hawliau ECD? Pam nad ydyn nhw wedi bod yn barod i gynnig hyd yn oed y mathau hyn o amodau materol gwarantedig? Pam nad ydyn nhw eisiau cael eu dwyn i gyfrif amdanyn nhw?

Onid yw'r methiant hwn yn fêl ar fysedd y rhai sy'n dweud mai dim ond ar gyfer yr elitau, y rhai sydd eisoes yn gyfoethog a phwerus, y mae hawliau dynol?

A beth mae'n ei ddweud am wleidyddion blaengar yn benodol? Y rhai sy'n dweud mai eu holl bwrpas gwleidyddol yw cynrychioli a rhyddhau'r rhai lleiaf cefnog (yr union bobl y mae eu hawliau ECD yn cael eu torri)?

Felly, ar yr adeg dyngedfennol hon, gyda llywodraethau blaengar mewn grym, y cwestiwn cyffredinol yn sicr yw nid pam y dylem ymgorffori hawliau ECD, ond pam ar y ddaear y byddem yn dewis peidio â gwneud hynny?

Yn fy marn i, bydd yn drychinebus os na wnawn ni fachu'r cyfle hwn. Sut ydym yn gobeithio cynyddu neu hyd yn oed gynnal cefnogaeth i hawliau dynol os byddwn yn anfon y neges hon? Roedd Gordon Brown yn ymwybodol o hyn pan alwodd am i hawliau cymdeithasol:

“[be part of] an agreed statement of the purposes of the UK as a whole - as it were, a mission statement for the union of nations and regions which make up this country - and this should be given appropriate constitutional authority”.

Byddai'n arbennig o drychinebus, ac eironig, pe bai'r rheswm pam na fanteisiwyd ar y cyfle hwn i wneud hawliau ECD yn gyfansoddiadol oherwydd anfantais wleidyddol tymor byr ganfyddedig: yn sgil y ffaith y byddai'n rhaid i hawliau ECD cyffredinol fod yn gymwys i fudwyr ynghyd â phawb arall, byddai hyn yn fêl ar fysedd Reform a'r dde eithaf.

Yn ymarferol, efallai na fydd hynny'n arwyddocaol mewn termau materol. Mae cyfreitheg hawliau ECD yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer rhai gwahaniaethau cyd-destunol rhwng pobl sydd yn y DU yn barhaol a'r rhai sydd yma'n disgwyl am benderfyniadau ynghylch eu statws.

A'r eironi? Mae pob arolwg barn yn dangos bod hawliau ECD yn boblogaidd iawn gyda'r cyhoedd.

Ond hyd yn oed o roi hynny o'r neilltu, rhaid i bleidiau blaengar fod yn barod i ymgymryd â'r frwydr hon. Rhaid iddyn nhw osgoi ildio tir ar gyffredinoliaeth i'r Dde Eithaf.

Lle mae hynny'n stopio fel arall?

Edrychwch ar yr hyn y mae Reform a Farage yn ei ddweud am nawdd cymdeithasol:

Yn eu maniffesto yn 2024:

“All job seekers and those fit to work must find employment within 4 months or accept a job after 2 offers. Otherwise, benefits are withdrawn.”

Ond dyma farn Farage mewn gwirionedd:

“Welfarism, I’m afraid, is making millions of people lazy. ‘I’m too fat, I’m too stupid, I’m too lazy, I don’t want to get out of bed in the morning. I smoke drugs, give me money’ ... That’s what we’re saying. ‘I don’t need to work, the state will provide for me’ ... We cannot afford it.”

A dyma lle mae'r perygl yn llechu....

Byddai'r agwedd hon at ddibyniaeth ar y wladwriaeth yn gydnaws iawn â dadleuon neoryddfrydol am hawliau ECD ac ailddosbarthu gan y wladwriaeth yn gyffredinol.

A gallwn fod yn gymharol sicr, os yn gyfnewid am gynghrair wleidyddol gwrth-aillddosbarthu gyda Reform, mai'r cyfan sy'n rhaid i bob gwladwriaeth neoryddfrydol ei gytuno yn gyfnewid am hynny yw gadael Siarter Hawliau Dynol Ewrop a disodli'r Ddeddf Hawliau Dynol gyda Bil Hawliau y DU sy'n eithrio mudwyr, mae'r cytundeb hwnnw cystal â bod wedi'i wneud.

A chyda hynny, dyna ddiwedd hawliau dynol i bawb fel y gwyddom ni amdanyn nhw.

A bydd y 7 pechod marwol gyda ni am byth....

Ac mewn sefyllfa o'r fath, sut y gallem obeithio goresgyn yr heriau a'r bygythiadau sy'n ein disgwyl heb hawliau i bawb? Pa fframwaith moesol a moesegol fydd yn ein tywys os nad hawliau dynol?

Mae angen hawliau dynol cryf a gorfodadwy arnom, gan gynnwys hawliau ECD wrth gwrs, i wrthsefyll llanw poblyddiaeth a gwleidyddiaeth 'dyn awdurdodol' sydd fel arall yn bygwth ein rhannu'n anadferadwy.

Mae angen hawliau dynol cryf a gorfodadwy arnom i ddechrau gwrthdroi'r gwaethaf o'r saith pechod marwol sy'n gysylltiedig â neoryddfrydiaeth ddirwysr.

Ac o ran y gwrthwynebiad 'Does dim rhaid i ni'....

Pan ddaw gwyntoedd newid gwleidyddol - a does dim dwywaith y deuant - pe bai'r gwyntoedd hynny o blaid agenda'r dde eithaf, a does dim dwywaith y gallent, (hyd yn oed os nad ar ffurf plaid wleidyddol dde eithaf traddodiadol), pa seilwaith fydd ar ôl i amddiffyn y rhai sydd wedi dioddef y gwaethaf o ganlyniadau anghydraddoldeb difrifol dro ar ôl tro ...

Rhaid i hawliau ECD fod yn rhan o waddol gwleidyddiaeth flaengar – amddiffyniad systemig a chyfansoddiadol rhag goruchafiaeth economaidd a gwleidyddol y cyfoethocaf a gwrthwynebiad i'r oruchafiaeth honno.

Felly, rydym wedi cyrraedd “yr awr dyngedfennol.”

Nid oes modd osgoi arwyddocâd gwleidyddol hawliau ECD.

Ddim nawr. Nid ar yr eiliad dyngedfennol hon.

I gloi

Credaf yn gryf y byddai ECD yn esblygiad neu'n addasiad synhwyrol, aeddfed o gyfalafiaeth ddemocrataidd a allai, o'u gwneud gyda bwriad go iawn, leihau anghydraddoldeb materol a gwella cydraddoldeb democratiaeth, ar adeg pan fo'r ddwy

broblem honno'n bygwth tanseilio ein gallu cyfunol i'n hachub rhag y fersiwn waeth ohonom ein hunain.

Dylem fwrw o'r neilltu wrthwynebiad y rhai sy'n dweud y byddai hawliau ECD yn 'ormod',
“ddim yn ddigon” neu “ddim iddyn nhw!”

Nawr yw'r amser i wneud hyn.

Diolch